**Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol HSS-17-01(p1) .**

**Dyddiad: Rhagfyr 5 2001**

**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Teitl : Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru (CSIW) – Cynnydd ar ei Sefydlu**

## Diben

1. Diben y papur hwn yw rhoi adroddiad i aelodau'r Pwyllgor ar hynt sefydlu'r Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru (CSIW).

## Cefndir

2. Nodwyd y cefndir i'r polisi o ddiwygio'r trefniadau ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gofal iechyd gwirfoddol cymdeithasol a phreifat yn y Papur Gwyn "Adeiladu ar gyfer y Dyfodol" (Pennod 4) ac ymdriniwyd â hyn mewn papurau Pwyllgor blaenorol:

- HSS-02-99(p3)
- HSS-08-99(p2)
- PRE-16-06-99(p3)
- HSS-02-01(p11)
- HSS-08-01(p4)
- HSS-14-01(p3)

3. Sefydlwyd y pwerau sylfaenol ar gyfer y trefniadau rheoliadol newydd hyn gan Deddf Safonau Gofal 2000. Bellach, adlewyrchir gofynion y polisi ar gyfer Cymru y cytunwyd arnynt yn flaenorol gan y Pwyllgor yn y Ddeddf.

4. Trafododd y Pwyllgor y broses o sefydlu CSIW ddiwethaf yn ystod y cyfarfod ar 24 Hydref 2001, a gofynnodd am gael cyflwyniad anffurfiol ar CSIW gan wahodd bob AC i fod yn bresennol. Cynhaliwyd y cyflwyniad hwn ar 27 Tachwedd 2001.

## Y Cyd-destun

5. Prif ddiben y Ddeddf oedd diwygio'r system reoliadol ar gyfer y gwasanaethau gofal yng Nghymru a Lloegr a gwella'r broses o amddiffyn pobl sy'n agored i niwed. Ymgymerir â'r swyddogaethau rheoliadol hyn gan yr Arolygiaeth Safonau Gofal newydd yng Nghymru, ac yn Lloegr, gan y Comisiwn Safonau Gofal Cenedlaethol ac Ofsted (a fydd yn gyfrifol am reoleiddio gofal dydd ar gyfer plant o dan

8). Yr awdurdodau rheoliadol newydd fydd yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am reoleiddio'r holl wasanaethau hynny sydd ar hyn o bryd yng ngofal yr awdurdodau lleol a'r awdurdodau iechyd, sef:

- *Cartrefi gofal preswyl a chartrefi nyrsio, a adwaenir fel cartrefi gofal yn y dyfodol*
- *Cartrefi plant*
- *Ysgolion preswyl annibynnol (arolygiadau lles yn unig)*
- *Gofal dydd ar gyfer plant o dan 8 oed*
- *Y rhan fwyaf o wasanaethau gofal iechyd preifat a gwirfoddol*

6. Mae'r Ddeddf yn darparu y dylai'r awdurdodau rheoliadol newydd ymgymryd â swyddogaethau newydd a fydd yn cynnwys:-

- *Cartrefi gofal a chartrefi plant awdurdodau lleol (ar yr un sail â'r rheini yn y sector annibynnol)*
- *Gofal yn y cartref yn y sectorau statudol ac annibynnol*
- *Ysgolion preswyl a gynhelir (arolygiadau lles yn unig)*
- *Clinigau annibynnol ac asiantaethau meddygol annibynnol*
- *Asiantaethau maethu a mabwysiadu*
- *Canolfannau preswyl teuluol*

**Cynnydd ar Roi Strwythur Rheoli, Staffio a Gweithrediadol y CSIW ar Waith**

7. Mae agweddau personél ar y prosiect yn parhau i fynd rhagddynt yn dda. Er i ni grybwyll yn gynharach i ni lithro yn erbyn y graddfeydd amser y cytunwyd arnynt, bellach ein gobaith yw cwblhau'r gwaith erbyn 1 Ebrill 2001.

8. Yr uchelbwyntiau ers yr adroddiad diwethaf:

- Rydym bellach wedi penodi dirprwy i Rob Pickford (Pennaeth yr Adran Reoleiddio). Dechreuodd Colin Vyvyan yn ei swydd ar 19 Tachwedd, ar secondiad o Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.

- Paratowyd y cyfarwyddiadau i gyfreithwyr i ddrafftio gorchymyn y Cynulliad, sy'n rhoi'r broses o drosglwyddo staff ar waith, i'w hystyried gan y Cynulliad ym mis Chwefror 2002.

- Cafwyd ymateb da i'r ymgyrch recriwtio allanol i lenwi bylchau a helpu i leihau'r baich gwaith ychwanegol sy'n deillio o'r broses o arolygu a chofrestru lleoliadau newydd, fel y'u pennwyd gan Ddeddf Safonau Gofal 2000.

- Symudodd yr aelodau staff cyntaf i swyddfeydd newydd CSIW ddechrau mis Rhagfyr.

**Cynnydd ar y Rhaglen o Is-ddeddfwriaeth**

9. Bydd y rheoliadau a'r safonau cenedlaethol gofynnol yn sail i waith yr Arolygiaeth newydd ac mae Deddf Safonau Gofal 2000 yn ei gwneud yn ddyletswydd i ymgynghori ar y rheoliadau a'r safonau cenedlaethol hyn. Cynhaliodd y Cynulliad nifer o ymarferion ymgynghori sectoraidd yn ystod yr haf, a cheir rhestr o'r rhain isod. Derbyniodd aelodau'r Pwyllgor gopïau o bob dogfen ymgynghori fel y cawsant eu cyhoeddi.

- Cartrefi plant – Bu ymgynghori ar reoliadau drafft a'r safonau cenedlaethol gofynnol. Dechreuwyd ar y broses ymgynghori ar 20 Mehefin 2001 a daeth i ben ar 12 Medi 2001. Derbyniwyd 34 o ymatebion.

  Ymysg y sylwadau a gafwyd gan y bobl yr ymgynghorwyd â hwy roedd materion yn ymwneud â chymarebau staffio, maint yr ystafelloedd, cymwysterau'r staff a'r mater o gael un rheolwr fesul cartref.

- Cartrefi gofal – Ymgynghorwyd ar reoliadau drafft a 3 set o safonau cenedlaethol gofynnol, gan gwmpasu cartrefi gofal i bobl hn, cartrefi gofal i oedolion a lleoliadau i oedolion. Dechreuwyd ar y broses ymgynghori ar 13 Awst 2001 a daeth i ben ar 22 Hydref 2001. Derbyniwyd 156 o ymatebion, gan gynnwys 26 a gyrhaeddodd ar ôl y terfyn amser ar gyfer ymgynghori.

  Ymysg y sylwadau a gafwyd gan y bobl yr ymgynghorwyd â hwy roedd materion yn ymwneud â chymarebau staffio, hyfforddiant a chymhwyster, sicrwydd ansawdd, archwiliadau gan yr heddlu a thrin meddyginiaeth. Awgrymodd nifer y dylid cael atodlenni ar wahân ar gyfer canolfannau adfer cleifion sy'n camddefnyddio cyffuriau ac alcohol, ac ar gyfer lleoliadau i bobl ag anabledd dysgu.

- Gwasanaethau gofal iechyd preifat a gwirfoddol – Cafwyd ymgynghoriad ar y rheoliadau drafft a set o safonau craidd a gwasanaeth penodol. Dechreuwyd ar y broses ymgynghori ar 21 Awst a daeth i ben ar 30 Hydref 2001. Derbyniwyd 23 o ymatebion, gan gynnwys 1 a ddaeth ar ôl y terfyn amser ar gyfer ymgynghori.

  Ymysg y sylwadau a gafwyd gan y bobl yr ymgynghorwyd â hwy roedd materion yn ymwneud â chwmpas y broses reoleiddio ac ymweliadau gan ddarparwyr cofrestredig.

- Gwarchodwyr plant a gwasanaethau gofal dydd i blant o dan 8 oed – Ymgynghorwyd ar y rheoliadau drafft a 6 set o safonau cenedlaethol gofynnol, gan gwmpasu gwarchodwyr plant, gofal dydd llawn, gofal dydd sesiynol, gofal y tu allan i'r ysgol, grwpiau chwarae mynediad agored a meithrinfeydd. Dechreuwyd ar y broses ymgynghori ar 21 Awst a daeth i ben ar 30 Hydref 2001. Derbyniwyd 138 o ymatebion, gan gynnwys 21 a gyrhaeddodd ar ôl y terfyn amser ar gyfer ymgynghori.

  Ymysg y sylwadau a wnaed gan y bobl yr ymgynghorwyd â hwy roedd materion yn ymwneud â chofnodion a dogfennaeth yn gyffredinol, sicrwydd ansawdd a chymarebau staffio.

- Ysgolion preswyl a Cholegau – Ymgynghorwyd ar y safonau cenedlaethol gofynnol drafft ar gyfer ysgolion preswyl, colegau addysg bellach ac ysgolion arbennig preswyl. Dechreuwyd ar y broses ymgynghori ar 10 Medi a daeth i ben ar 19 Tachwedd 2001. Derbyniwyd 15 o ymatebion.

10. Mae swyddogion wrthi ar hyn o bryd yn ystyried yr holl ymatebion i'r ymarferion ymgynghori ac yn diwygio'r rheoliadau drafft a'r safonau cenedlaethol gofynnol fel y bo'n briodol. Bydd crynodeb o bob ymateb a dderbyniwyd ar dudalennau CSIW ar wefan y Cynulliad. Yna, mae swyddogion yn galw'r Grwpiau Safonau ynghyd, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o blith darparwyr, defnyddwyr y gwasanaethau a grwpiau â diddordeb. Gofynnir i'r grwpiau hyn benderfynu ar ffurf derfynol y gwahanol setiau o safonau cenedlaethol gofynnol a sicrhau bod y sector gofal yn eu cefnogi yn gyffredinol. Cyflwynir y rheoliadau a'r safonau terfynol yna i'w hystyried gan y Cynulliad.

11. Yn ystod yr haf, bu'r Cynulliad yn ymgynghori ar y rheoliadau a'r safonau cenedlaethol gofynnol ar gyfer y Gwasanaethau Maethu. Dechreuwyd ar y broses ymgynghori ar 21 Awst 2001 a daeth i ben ar 30 Hydref 2001. Derbyniwyd 21 o ymatebion, gan gynnwys 10 a gyrhaeddodd ar ôl y terfyn amser ar gyfer ymgynghori. Bydd angen ystyried cynnwys y safonau hyn ymhellach, mewn cydweithrediad â chymheiriaid yn Lloegr, a disgwyliwn y gallwn gyflwyno'r rheoliadau a'r safonau terfynol i'w hystyried gan y Cynulliad ddechrau haf 2002. Ar hyn o bryd, nid yw'r gwasanaethau maethu'n cael eu rheoleiddio.

12. Yn ddiweddar, cyhoeddodd y Cynulliad ddwy set arall o ymarferion ymgynghori, ac anfonwyd copïau ohonynt at aelodau'r Pwyllgor hwn. Mae'r set gyntaf yn ymdrin â fframwaith rheoliadol i'r Arolygiaeth ar gyfer codi tâl ac mae'r ail yn ymdrin â chynigion y Cynulliad i wahardd rhai pobl rhag gofalu am blant. Bydd y Cynulliad yn cyhoeddi ymarfer ymgynghori arall ddechrau Rhagfyr a fydd yn ymdrin â'r trefniadau a'r gweithdrefnau dros dro ar gyfer cofrestru gyda CSIW. Bydd angen i bob un o'r rheoliadau hyn fod ar waith erbyn Ebrill 2002.

13. Nod y Cynulliad fydd cyhoeddi rhagor o ymarferion ar reoliadau sectoraidd a safonau cenedlaethol gofynnol ar ddechrau 2002. Bydd y rhain yn cwmpasu asiantaethau gofal yn y cartref, asiantaethau nyrsio a chanolfannau preswyl teuluol. Nid yw'n debygol y cyhoeddir rheoliadau a safonau ar gyfer asiantaethau mabwysiadu ar gyfer ymgynghori cyn 2003.

14. Dylai'r rhan fwyaf o'r rheoliadau gael eu trafod yn ystod Chwefror 2002. Fodd bynnag, ni fydd trafodaeth ar y rheoliadau ar gyfer gwasanaethau maethu, asiantaethau gofal yn y cartref, canolfannau teuluol preswyl ac asiantaethau nyrsio tan yn hwyrach yn 2002.

**Cydymffurfiad**

15. Cwmpesir y rheoliadau a'r safonau gan Reolau Sefydlog 22 a 23 ac adran 65 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1988. Dirprwywyd pwerau'r Cynulliad o dan y Ddeddf Gofal Safonau i'r Prif Weinidog ar 14 Medi 2000 ac i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod Chwefror 2001. Nid oes unrhyw faterion o reoleidd-dra a phriodoldeb.

## Camau i'w Cymryd

16. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r cynnydd a wnaed ar roi rhaglen Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru ar waith.

**Cysylltbwynt**

17. Prys Davies, Rhoi CSIW ar Waith Ffôn : 029 20 898665

**Tachwedd 2001**